

ANFFAELEDIG OEL FY NHAID

Gan MEURIG EVANS

OEL MORRIS EVANS oedd enw pawb arno - ond nid fy enw i. I mi Oel Taid oedd hwn am fy mod yn wŷr i'r Morris Evans yma a ddyfeisiodd ac a gymysgodd ei feddyginiaeth ryfeddol ac anffaeledig ym Mlaenau Ffestiniog.

Ychydig o hanes teulu taid sydd ar gael ond fe glywais y deuai o linach porthmyn yng nghanolbarth Cymru.

Morris Evans oedd yrieuengaf o ddeuddeg o blant Dafydd ac Elisabeth Evans. Saer oedd Dafydd - crefftwr rhagorol yn ôl y sôn ac nid bychan o beth oedd magu teulu mor fawr a bu'n rhaid i'r holl fechgyn droi i'r chwarel yn gynnar iawn.

Deg oed oedd Morris Evans pan ddechreuodd yn y chwarel ac yno y bu nes oedd yn bump ar hugain pan ddaeth dirwasgiad i'r farchnad lechi. Gyda'i ychydig enillion, bu'n gynnwl iawn, cychwynnodd fusnes gwerthu glo yn Llan Ffestiniog. Llwyddodd y fenter a dechreuodd werthu blawdiau a nwyddau, a Siop Morris Evans yn dod yn un o sefydliadau'r fro.

Bu'n aelod o Gyngor Sir Meirion am flynyddoedd yn ogystal a bod yn aelod o Bwyllgor Addysg Ffestiniog hyd y diwedd. Roedd yn Annibynnwr i'r carn - yng Nghapel bach Saron ac wedyn ym Methel pan symudwyd yr achos yno.

Priododd deirgwaith - y tro cyntaf gyda Ann Evans. Bu iddynt ddau o blant - Gwilym Evans, fy nhad, a merch, Catherine Ann Evans. Ond bu farw fy nain pan oedd fy nhad ond rhyw dair oed, a'i chwaer yn ychydig fis oedd.

Ail-briododd a chafodd fab arall - Dafydd Evans ond fe golodd ei briod ar enedigaeth. Priododd unwaith eto a chafwyd un mab, Francis William Evans ac fe orosodd ei briod Morris Evans.

YN EI cwyllys gadawodd fy nhaid a fu farw yn 1923 y siop groser i fy nhad a busnes yr oel i'w rannu rhwng Dafydd a Francis William brodyr fy nhad. Gelwid Francis yn Ffranco Wili gan lawer a Ffranco gan bawb.

Bu farw Dafydd yn gymharol ifanc yn nechrau'r tri degau a Ffranco ei hun fu'n gwerthu'r oel cyn yr ail ryfel. Roedd Ffranco'n gymeriad - tei bô bob amser a thrwsiadus dros ben, llais braidd yn fain ond tenor da a fu gyda Côr y Moelwyn yn America. Ac fe alwai bawb yn 'Jim' am ryw reswm. Nid oedd hanner y dyn busnes oedd Morris Evans ei dad, ond fe rygnodd ymlaen rywfodd neu'i gilydd.

Ond y blynyddoedd o dro'r ganrif hyd y rhyfel cyntaf oedd oes aur yr olew. Breuddwyd Morris Evans oedd bod yn filfeddyg ond ni chafodd y cyfle. Ond yr oedd ganddo ddiddordeb mawr mewn anifeiliaid a hoffter arbennig at gefylau.

Dechreuodd arbrofi gyda pherlysiâu ac olew o lysiau nes bodloni ei hun fod ganddo feddyginiaeth ar gyfer anhwylderau



Arwyddwyd yr hysbysiad uchod gan yr arlunydd ei hun, sef W. Mitford Davies.

creaduriaid. Dechreuodd ei gynhyrchu'n fasnachol o gwt yng ngwaelod yr ardd yn nechrau saith degau'r ganrif ddiwethaf. Yn ddiweddarach fe gododd y "Manufactory", adeilad o goed a sinc sy'n dal ar ei draed.

ER MAI ar gyfer gwartheg, defaid, ceffylau y bwriedid yr olew yn wreiddiol - ac fe ymddengys yr hawlid y gallasai iachau'r rheini o

bron bob anhwylder - yn ddiweddarach yr oedd y geiriau "Gellir hefyd ei gymeryd yn fewnol" ar y poteli gan hawlio y gallasai hefyd wellhau afiechydon dynol (cyfeirir at wella'r ddarfodedigaeth yn y testimonials a gyhoeddai).

Ac yr oedd Taid yn werthwr heb ei ail ac fe welir ei hysbysebion yn britho'r papurau newydd a'r cylchgronau yng Nghymru. Cyhoeddai benillion i'r olew

rhyfeddol - mae ganddo hyd yn oed adroddiad a gyfansoddodd - ynghyd â chartwneu, cyfrol fach o destimonials ag ati.

Mae yna stori iddo anfon trafaeliwr i werthu'r oel ym Mhatagonia ac i'r Indiaid saethu hwnnw. Mae'n debyg mai stori yw honno, ond mae tystiolaeth fod yna werthiant i'r oel yn y Wladfa.

Ac wele air da o'r Swyddfa Ryfel yn 1910, "In our opinion no stable Cavalry or Yeomanry Regiment is complete without this wonderful oil" - War Office Times and Naval Review.

Roedd syrcaes John Sanger meddai yn dibynnu ar yr oel.

AR GYFER ei ddefnyddio'n allanol, cyfansoddid yr oel oedd - Light Mineral Oil 78/, American Pine Oil 10 /, Linseed Oil 5/, Turpentine 5/, Sulphuric 1/, Potassium 1/.

A'r American Pine Oil yna a roddodd hoelen yn arch yr olew ym Mlaenau Ffestiniog. Gan nad oedd hwn ar gael yn ystod y rhyfel rhoddodd Ffranco Mineral Oil yn ei le. Ond ni newidiwyd y label ar y poteli a ddalir i ddweud mai'r Pine Oil oedd ynddo ac y gellid ei yfed yr hyn na fedrid.

Aed â Ffranco o flaen ei well a chafodd ei ddirwyo bum cant o buniau, a ysiggodd Ffranco yn ariannol ac a olygodd yn y diwedd werthu'r oel i gwmni Osmond yn Glimsby lle parhawyd i'w gynhyrchu.

Bitters gwrthiol Llanelli

AM Y rhan helaethaf o gan mlynedd bu hysbyseb Gwilym Evans a'i Quinine Bitters yn britho dalennau'r wasg Gymraeg a'r moddion o Lanelli yn cael ei ystyried yn anffaeledig ar gyfer annwyd, gwendid, y stumog a llu o anhwylderau.

Ganed Gwilym Evans ar ffarm Dolau Hirion, Llanymddyfri ar Mai 15 1851, fe'i haddysgwyd yng Ngholeg Llanymddyfri gan ddechrau ar ei waith fel "cemist" ac agor busnes yn Llanelli yn 1870. Bu llewyrch ar y fenter, ond y Quinine Bitters a gymysgodd a'i gwnaeth yn enwog a chyfoethog.

Fel y tyfai'r busnes (yr oedd ganddo fusnes deintydd hefyd) daeth ei gefnder Morgan W James yn bartner iddo. Yna ymdeolodd o fod yn "cemist" gan ganolbwyntio ar y Bitters a ffurfio cwmni yn 1888 i'w gynhyrchu a'i werthu. Roedd y cwmni yma yn un o'r rhai cynaraf i'w restru yn y Gyfnwidafa yng Nghaerdydd (yn awr wedi ei chau) pan sefydlwyd honno cyn diwedd y ganrif.

Yr oedd y Bitters yn ddigon i Gwilym Evans gael ei wneud yn Gymrawd i Gymdeithas Gemegol ac ef oedd y Cymro cyntaf i gael ei ethol yn aelod o Gymdeithas Pharmaceutical Prydain Fawr.

BU'N WR busnes a gŵr cyhoeddus llwyddiannus iawn. Gwnaeth arian da trwy fuddsoddi mewn eiddo ac



GWILYM EVANS

am flynyddoedd bu'n gadeirydd cwmni Old Castle Tin Plate; Cadeirydd y Welsh Tin Plate Stamping and Enamelling Company, Cadeirydd ffowndri Richard Nevill, cyfarwyddwr gyda'r Llanelli Steel Works a chwmni Ben Evans.

Bu'n amlwg ym myd addysg ac yn arloeswr i Addysg Ganolradd yng Nghymru ac ef a osododd garreg sylfaen Ysgol Ganolraddol Llanelli yn 1896. Roedd hefyd yn llywodraethwr colegau Aberystwyth a Chaerdydd, a helpodd ei ymdrechion i sefydlu Ysgol Uwch Safonol (Higher

Grade) Llanelli. Yn 1895 ef oedd Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Eisteddfod Genedlaethol Llanelli.

Am dair blynedd bu'n gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ac fe'i gwnaed yn Ustus Heddwch yn 1897.

Yng nghylch Llanelli yr oedd ei fys ymhob brywes. Yn wleidyddol Radical ydoedd ac yn 1897 fe'i dewiswyd yn ymgeisydd Rhyddfrydol tros Gaerfyrddin, ond penderfynodd beidio â sefyll.

Bu farw ym mis Tachwedd 1905 ond parhawyd i gynhyrchu'r Quinine Bitters heibio i ddiwedd y rhyfel diwethaf. Ond yn y pumdegau prynwyd y Quinine Bitters gan Humphrey Jones, "cemist" arall a'i gynhyrchu am gyfnod ym Mhenygroes, Dyffryn Nantlle.

AR WERTH

"Cannwyll y Cymry" Rees Prichard. Y trydydd argraphiad ar ddeg. Yr Amwythig, Stafford Prys, 1766;

"Sŵn y Jiwbilli, neu Ganiadau y Diwygiad" (Detholiad o emynau I.D. Sankey wedi eu cyfieithu) gan y Parch John Roberts (Ieuan Gwyllt). £3. Cysyllter yn y lle cyntaf â John Dilwyn Williams, Glan Ffrwd, Pentre-uchaf, Pwllheli, Gwynedd. Ffôn: Pwllheli 613480.